Aelodaeth o grwpiau sy'n cynrychioli gwladwriaethau a rhanbarthau is-genedlaethol, gan gynnwys Cynghrair Dan2, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i lais Cymru gael ei glywed ar y llwyfan rhyngwladol, gan gynnwys yn COP.

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **BEL 2807 – Gweithredu ar Newid Hinsawdd** | 204 | 1,052- |
| **Diben y BEL** | | |

| |
|---|
| Mae cyfraniadau tuag at yr fuddsoddiad i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i ymgymryd ag effeithlonrwydd ynni, ac agosrwydd prosiectau ynni adnewyddadwy |

## Atodiad B – Dadansoddiad manwl o ddyrannu Drafft Cyllideb 2026-27 ar lefel BEL

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r addasiadau a wnaed i sailliniadau Cyllideb Terfynol 2025-26. Ar gyfer Adnoddau Ariannol (incwm) mae'r addasiadau'n ymwneud â dyrannu ailadroddus a wnaed yn ystod 2025-26 mewn perthynas â gwobr cyflog sector cyhoeddus a newidiadau mewn yswiriant cenedlaethol.

| ADNODDAU | | | £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithred** | **BEL No.** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen 2026-27** | **2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **2026-27 Newidiadau Sylfaenol Wedi'u Diwygio** | **Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025** | **% newid** |
| **Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol** | 2812 | Deddfwriaeth, Gweithredu, Llywodraethiant a Chyfathrebu ym maes yr Amgylchedd | 1,977 | 7 | 1,984 | 907 | 2,891 | 46% |
| **Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol** | | | **1,977** | **7** | **1,984** | **907** | **2,891** | **46%** |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 4,170 | 0 | 4,170 | 80 | 4,250 | 2% |
| | 2807 | Buddsoddi i Arbed - Twf Gwyrdd | 200 | 0 | 200 | 4 | 204 | 2% |
| | 2817 | Diogelu'r Amgylchedd | 6,722 | 16 | 6,738 | 67 | 6,805 | 1% |
| | 3771 | Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd | 3,796 | 18 | 3,814 | 53 | 3,867 | 1% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | | | **14,888** | **34** | **14,922** | **204** | **15,126** | **1%** |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | 2230 | Rheoli Risg Llifogydd a Chyflenwi Polisi Gwastraff | 6,481 | (3,482) | 2,999 | 570 | 3,569 | 19% |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | | | **6,481** | **(3,482)** | **2,999** | **570** | **3,569** | **19%** |
| **Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | 2195 | Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 500 | 0 | 500 | 10 | 510 | 2% |
| | 2825 | Bioamrywiaeth a Thystiolaeth | 11,520 | 5 | 11,525 | (454) | 11,071 | (4%) |
| | 2827 | Coedwigaeth | 6,436 | 0 | 6,436 | 105 | 6,541 | 2% |
| | 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 2,650 | 0 | 2,650 | 53 | 2,703 | 2% |
| **Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | | | **21,106** | **5** | **21,111** | **(286)** | **20,825** | **(1%)** |
| **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 100,324 | 3,163 | 103,487 | 1,848 | 105,335 | 2% |
| **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | | | **100,324** | **3,163** | **103,487** | **1,848** | **105,335** | **2%** |
| **Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 35,800 | 48 | 35,848 | 667 | 36,515 | 2% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | | | **35,800** | **48** | **35,848** | **667** | **36,515** | **2%** |
| **Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | 2490 | Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad | 13,051 | 325 | 13,376 | 298 | 13,674 | 2% |
| **Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | | | **13,051** | **325** | **13,376** | **298** | **13,674** | **2%** |
| **Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr** | 2232 | Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr | 5,836 | (1,958) | 3,878 | 6,000 | 9,878 | 155% |
| **Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr** | | | **5,836** | **(1,958)** | **3,878** | **6,000** | **9,878** | **155%** |
| **Adfer, Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Morol** | 2875 | Polisi Morol, Tystiolaeth ac Ariannu | 2,361 | 3 | 2,364 | 48 | 2,412 | 2% |
| **Adfer, Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Morol** | | | **2,361** | **3** | **2,364** | **48** | **2,412** | **2%** |
| **Yr Amgylchedd a Rheoli Bywyd Gwyllt** | 2802 | Diogelu Planhigion a Bywyd Gwyllt, Mawndiroedd a Rheoleiddio | 1,407 | 11 | 1,418 | 682 | 2,100 | 48% |
| **Yr Amgylchedd a Rheoli Bywyd Gwyllt** | | | **1,407** | **11** | **1,418** | **682** | **2,100** | **48%** |
| **NEWID HINSAWDD A MATERION GWLEDIG** | | | **203,231** | **(1,844)** | **201,387** | **10,938** | **212,325** | **5%** |

| CYFALAF | | | £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithred** | **BEL No.** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen 2026-27** | **2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **2026-27 Newidiadau Sylfaenol Wedi'u Diwygio** | **Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025** | **% newid** |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 12,000 | 0 | 12,000 | 0 | 12,000 | 0% |
| | 2807 | Buddsoddi i Arbed - Twf Gwyrdd | 1,052 | 0 | 1,052 | 0 | 1,052 | 0% |
| | 2817 | Diogelu'r Amgylchedd | 2,686 | 0 | 2,686 | 0 | 2,686 | 0% |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | | | **15,738** | **0** | **15,738** | **0** | **15,738** | **0%** |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | 2230 | Rheoli Risg Llifogydd a Chyflenwi Polisi Gwastraff | 31,521 | (1,500) | 30,021 | 3,478 | 33,499 | 12% |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | | | **31,521** | **(1,500)** | **30,021** | **3,478** | **33,499** | **12%** |

Tudalen pecyn 71

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | 2825 | Bioamrywiaeth a Thystiolaeth | 12,500 | 0 | 12,500 | (1,000) | 11,500 | (8%) |
| | 2827 | Coedwigaeth | 9,310 | 0 | 9,310 | 0 | 9,310 | 0% |
| | 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 12,564 | 0 | 12,564 | 0 | 12,564 | 0% |
| **Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | | | **34,374** | **0** | **34,374** | **(1,000)** | **33,374** | **(3%)** |
| **Yr Amgylchedd a Rheoli Bywyd Gwyllt** | 2802 | Diogelu Planhigion a Bywyd Gwyllt, Mawndiroedd a Rheoleiddio | 0 | 0 | 0 | 5,200 | 5,200 | 100% |
| **Yr Amgylchedd a Rheoli Bywyd Gwyllt** | | | **0** | **0** | **0** | **5,200** | **5,200** | |
| **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 27,806 | 0 | 27,806 | 0 | 27,806 | 0% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | | | **27,806** | **0** | **27,806** | **0** | **27,806** | |
| **Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 41,853 | 0 | 41,853 | (4,200) | 37,653 | (10%) |
| **Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | | | **41,853** | **0** | **41,853** | **(4,200)** | **37,653** | **(10%)** |
| **Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | 2490 | Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad | 8,900 | 0 | 8,900 | 0 | 8,900 | 0% |
| **Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | | | **8,900** | **0** | **8,900** | **0** | **8,900** | **0%** |
| **Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr** | 2232 | Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr | 38,217 | (23,000) | 15,217 | 25,000 | 40,217 | 164% |
| **Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr** | | | **38,217** | **(23,000)** | **15,217** | **25,000** | **40,217** | **164%** |

Tudalen y pecyn 70

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFALAF | **198,409** | **(24,500)** | **173,909** | **28,478** | **202,387** | **16%** |

| CYFALAF FT | | | £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Action** | **BEL No.** | **BEL Description** | **Plans as per 2025-26 Final Budget February 2025** | **Baseline Changes for 2026-27** | **2026-27 Revised Baseline** | **2026-27 Revised Baseline Changes** | **2026-27 Draft Budget October 2025** | **% Change** |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru FT | 10,000 | (10,000) | 0 | 10,200 | 10,200 | N/A |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | | | **10,000** | **(10,000)** | **0** | **10,200** | **10,200** | **N/A** |
| CYFALAF | | | **10,000** | **(10,000)** | **0** | **10,200** | **10,200** | **N/A** |

Eitem 3.1

**Dr Chris Llewelyn**
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref:
Dyddiad / Date: 23/10/25
Gofynnwch am / Please ask for: Tim Peppin
Llinell uniongyrchol / Direct line: 07747 483761
Ebost / Email: tim.peppin@wlga.gov.uk

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd – Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

copi at Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
James Price, Prif Weithredwr TrC

*Drwy e-bost*

Annwyl Llŷr,

**Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) – Materion gweddilliol Cam 1 i gael eu hystyried yn niwygiadau Cam 2**

Ysgrifennaf i dynnu sylw at elfennau o'r Bil drafft y credaf fod angen eu hystyried yn niwygiadau Cam 2.

Mae Cynghorau'n cefnogi'r amcan a'r uchelgais i gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio bysiau. Er hynny, mae'n bwysig bod y dull sydd ynghlwm â'r Bil yn effeithlon, ac yn achosi cyn lleied â phosib' o risg i'r pwrs cyhoeddus ac i ostyngiad yn y gwasanaethau presennol i ddefnyddwyr cyfredol. Hoffwn, felly, fanteisio ar y cyfle hwn i godi nifer o bwyntiau gyda chi a'ch Pwyllgor.

Un brif ystyriaeth yw fforddiadwyedd y cynigion o ran y gost weinyddol a gallu bodloni disgwyliadau sy'n cael eu codi gan y Bil o ran mwy o ddarpariaeth gwasanaethau bysiau.

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru
wlga.wales
@WelshLGA

Mae Asesiad Ariannol Llywodraeth Cymru'n cynnwys amcangyfrif o gost weinyddol ychwanegol o £30m y flwyddyn i wneud gwaith ynghlwm â rhoi rhyddfreintiau *(franchise)*. Mae hyn yn gynnydd sylweddol i gostau gweinyddol Cynghorau sy'n darparu'r rhwydwaith presennol. Rwyf wedi cael sicrhad ar lafar gan TrC nad ydyn nhw'n cydnabod y ffigwr o £30m a'u bod yn deall bod angen i'r costau gyfateb i gostau gweinyddol cyfredol. Credaf ei bod yn bwysig bod y pwynt hwn yn cael ei wneud yn glir a'i gofnodi yn rhan o drafodaethau'r Pwyllgor.

Mae'r achos dros ryddfreintio'n amlygu'r cyfle i wella gwasanaethau, sy'n awgrymu y bydd llwybrau newydd a/neu welliannau i lefel y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n amlwg o ymgynghoriad cyhoeddus De-orllewin Cymru a gwybodaeth a rannwyd â Chynghorau yn y rhanbarth gan TrC nad oes unrhyw adnoddau ychwanegol ar ffurf staff na cherbydau ar gael ar unwaith. Felly mae'r gwelliannau, i ddechrau, o leiaf, yn debygol o fod yn fach.

Mae trafodaethau hyd yma a'r ymgynghoriad ar Ddrafft Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru wedi amlygu pwysigrwydd gwybodaeth leol i ddeall anghenion defnyddwyr a bod yn ymwybodol o gyfyngiadau ar y priffyrdd ac o ran isadeiledd sy'n effeithio ar weithrediadau bysiau.

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r rhwydwaith gan TrC yn cynnwys defnyddio mwy ar gysylltiadau cyfnewidfeydd. Mae hynny'n golygu amseroedd teithio ychwanegol. Mae siwrneiau hirach sy'n uno llwybrau, ac yn llai rheolaidd ac yn gadael rhai ardaloedd â llai o wasanaeth neu heb wasanaeth o gwbl, hefyd yn cael eu cynnig. Bydd angen cwblhau rhai siwrneiau bws gynt drwy gyfnewidfa gyda thrên. Bydd hyn yn creu canlyniadau anfwriadol i rai sydd â thocyn teithio rhatach, a fydd yn gorfod talu cyfran o gost y daith roeddent yn gallu ei gwneud am ddim yn y gorffennol.

Bydd gweithredu dros fwy o bellter yn cynyddu risg ac effaith tagfeydd ar ddibynadwyedd gwasanaethau bysiau gyda llai o opsiynau i liniaru hyn, os bydd opsiynau o gwbl.

Mae cynlluniau hefyd i wahanu darpariaeth isadeiledd a darparu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae cysylltiad annatod rhwng yr elfennau hyn, gan nad oes modd darparu gwybodaeth heb isadeiledd addas. Er bod Cynghorau'n cydnabod pwysigrwydd arosfannau bysiau fel y ffenest siop i ddefnyddwyr, mae pwysau cyllid wedi cyfyngu ar y gallu i ddarparu isadeiledd sy'n bodloni'r uchelgeisiau sydd gennym ar y cyd. Mae hepgor ystyriaethau isadeiledd ehangach ynghlwm â phriffyrdd, gan gynnwys mesurau blaenoriaeth i fysiau, yn golygu nad yw'r cynlluniau'n mynd i'r afael ag un o'r rhwystrau sylfaenol i fwy o ddefnydd o fysiau.

Mae'r Bil i bob pwrpas yn cyfyngu ar rôl Cynghorau i fod yn gyrff ymgynghori yn unig, er y bydd Cynghorau'n parhau i fod â dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer elfennau

allweddol o’r system, gan gynnwys cludiant o’r cartref i’r ysgol, isadeiledd ochr y ffyrdd a bod yn Awdurdod Priffyrdd perthnasol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig defnyddio Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Chynghorau. Fodd bynnag, nid yw’n eglur a fyddai digon o statws i hyn er mwyn galluogi Cynghorau i gyflawni eu dyletswyddau perthnasol yn effeithiol. Dyletswydd i weithio ar y cyd â Chynghorau fyddai orau. Yn hyn o beth, mae hefyd angen eglurder o ran trefniadau llywodraethu. Yn y pen draw, fel yr amlinellwyd, Gweinidogion Cymru a fydd yn gyfrifol am gymeradwyo’r rhwydwaith bysiau. Mae hyn yn creu risg y gallai’r hyn sy’n cael ei gymeradwyo wrthdaro â dyletswyddau a chyfrifoldebau Cynghorau mewn perthynas â phriffyrdd a darparu cludiant o’r cartref i’r ysgol. Er bod trefniadau da i gydweithio a fyddai, gobeithio, yn osgoi sefyllfaoedd felly, byddai dyletswydd i weithio gyda Chynghorau’n rhoi mwy o sicrwydd.

Mae’r dull hwn o gaffael, gyda chontractau llawn, ‘cost gros’, yn cynyddu’r risg ariannol i’r pwrs cyhoeddus. Mae hefyd yn golygu mwy o waith rheoli a gweinyddu contractau. Mae’r dull arfaethedig, i bob pwrpas, yn sicrhau swm yr elw i weithredwyr am yr holl wasanaethau heb unrhyw risg ariannol iddynt.

Mae llwyddiant hirdymor rheoli costau mewn model caffael o’r fath yn dibynnu ar farchnad gyflenwi gref. Mae risg y bydd nifer y cyflenwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig a chwmnïau bysiau sy’n eiddo i Gynghorau’n cael eu heffeithio’n ddirfawr os ydynt yn aflwyddiannus yn rownd gyntaf y broses ryddfreintio. Yn yr un modd, gallai cwmnïau mawr gweithredu bysiau benderfynu tynnu allan o Gymru os ydynt yn aflwyddiannus. Yn y ddau achos, mae hyn yn lleihau cystadleuaeth ac yn creu perygl o ansefydlogrwydd a chynnydd mewn prisiau yn rowndiau’r dyfodol. Bydd colli gweithredwyr felly hefyd yn cyfyngu ar allu Cynghorau i gyflawni eu dyletswyddau cludiant o’r cartref i’r ysgol statudol o ganlyniad i golli capasiti a/neu brisiau uwch i adlewyrchu’r gostyngiad yn nghyflenwad y cerbydau addas sydd ar gael.

Bydd y cynnig i brynu depos a cherbydau ar y dechrau’n creu rhagor o gostau i’r pwrs cyhoeddus ac efallai na fydd modd adennill y costau hynny neu na fyddant yn rhoi gwerth am arian. Mae’r cynnig i ddefnyddio’r dull gwerth gweddilliol i gaffael cerbydau gan weithredwyr cyfredol yn ei hanfod yn creu aneffeithlonrwydd yn y fflyd. Rwyf i wedi awgrymu dull gwahanol i TrC a fyddai’n ymwneud â defnyddio anogaeth ariannol i weithredwyr uwchraddio eu cerbydau.

Mewn cyflwyniadau i bwyllgorau’r Senedd, mae cynrychiolwyr CLlLC wedi mynegi pryderon ynghylch y rhagdybiaethau costau a refeniw sydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae’r pryderon hyn yn parhau, gyda’r risg y bydd y rhagdybiaethau gorffyddiog ac unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol yn ei gwneud yn anodd darparu’r rhwydwaith presennol gyda’r gyllideb sydd ar gael. O ystyried y pris contract sefydlog ar gyfer gweithredwyr llwyddiannus, byddai’n rhaid ymdrin ag unrhyw fylchau o ran cyllid drwy doriadau i’r gwasanaethau a/neu gynyddu prisiau.

Mae'r cynnig i drosglwyddo swyddogaethau cyfredol Cynghorau i Weinidogion Cymru'n golygu goblygiadau arwyddocaol i adnoddau staff ac effeithlonrwydd. Gan fod staff Cynghorau, ar y cyfan, yn cyflawni sawl rôl, bydd unrhyw doriadau swyddi'n effeithio ar wybodaeth a gallu o ran cludiant yn fwy cyffredinol mewn Cynghorau. Mae anwybyddu cludiant o'r cartref i'r ysgol a Chynllun Tocynnau Teithio Rhatach Llywodraeth Cymru yn y Bil yn rhoi'r aelodau staff hyn mewn perygl penodol.

Cefnogir yr uchelgais i ddefnyddio'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol, ac mae gan sawl Awdurdod Lleol unedau cludiant integredig, sydd eisoes yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd o'r fath. Nodir y bwriad i ystyried rhagor o gyfleoedd, ond mae risg annatod y bydd y dull yn cyflwyno gofynion sy'n gwrthdaro ac yn gwanhau arbedion effeithlonrwydd sydd eisoes ar waith. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r rhwydwaith yn creu perygl o gael gwared ar siwrneiau statudol o'r cartref i'r ysgol y mae'r rhwydwaith presennol yn eu caniatáu. Bydd angen i ragdybiaethau ariannu contractau'r rhyddfreintiau roi ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd o golli ffynonellau cyllid cyfredol.

Mae gan swyddogion Cynghorau flynyddoedd lawer o brofiad o gynllunio a chydlynu rhwydweithiau bysiau ac maent yn awyddus i barhau i weithio'n agos gyda chi wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Gobeithiaf y byddwch yn gweld y sylwadau hyn fel rhai adeiladol a fydd o gymorth i chi wrth lunio'r Bil i gyflawni'r amcanion rydym yn eu rhannu, i gynyddu niferoedd sy'n defnyddio bysiau gan sicrhau'r gwerth gorau i'r pwrs cyhoeddus. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru a James Price, Prif Swyddog TrC.

Yn gywir,

A.morgan

Y Cynghorydd Andrew Morgan OBE
Arweinydd a Llefarydd Cludiant CLlLC

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru

wlga.wales

@WelshLGA

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru

wlga.wales

@WelshLGA

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/KSNWT/2275/25

Llŷr Gruffydd AS Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

11 Tachwedd 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch ichi am ystyried Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 22 Hydref.

Cyn trafodion Cyfnod 3 ar 2 Rhagfyr, er eglurder roeddwn i eisiau crynhoi'r ymrwymiadau a roddais yn ystod y cyfarfod ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â materion penodol a godwyd yn ystod trafodion Cyfnod 2.

<u>Amcan Ychwanegol – Mynediad at Wasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys Addysg a Gofal Iechyd:</u>

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried amcan ychwanegol i'w gynnwys o dan adran 4 o'r Bil, sy'n ymwneud â gwelliannau 25 a 55 nad ydynt yn welliannau'r Llywodraeth, yn ogystal â rhai materion ehangach a godwyd mewn perthynas â hygyrchedd. Byddai hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried hwyluso mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol, gan gynnwys addysg a gofal iechyd, wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Bil. Rydym yn bwriadu gofyn barn yr Aelodau ar sylwedd yr amcan hwnnw cyn gynted â phosibl fel y gallant lywio'r gwaith o ddatblygu gwelliant drafft.

<u>Cyflawni Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru:</u>

Fel y cytunwyd arno yn ystod trafodion Cyfnod 2, mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn bwriadu ymgysylltu ag Aelodau mewn perthynas â gwelliannau 61 a 63 a dynnwyd yn ôl a oedd yn ceisio ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod asesiad ariannol gerbron y Senedd yn ymwneud â chyflawni Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru. Rydym yn bwriadu gofyn am eglurhad gan yr Aelodau perthnasol ynghylch eu bwriad mewn perthynas â'r gwelliannau hyn er mwyn ystyried a yw gwelliant yn briodol neu'n angenrheidiol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Noder, byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid cyn bo hir i amlinellu'r diweddariadau a wnaed i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn eu hargymhellion.

Ymgynghori â'r awdurdodau lleol:

Yn olaf, o ran y gwelliannau arfaethedig sy'n ymwneud â Siarter/Fforwm Teithwyr, er ein bod o'r farn nad oes angen gwneud darpariaeth statudol mewn perthynas â siarter, rydym yn cydnabod bod y bwriad y tu ôl i'r ddau welliant hyn yn gyfle i ystyried gwelliant amgen ynghylch hygyrchedd a chynhwysiant trwy ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu rhannu drafft gyda'r Aelodau perthnasol cyn ei gyflwyno.

Rwyf am ddiolch i'r Pwyllgor unwaith eto am eu hamser; bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru yn ymgysylltu â'r Aelodau perthnasol ar y materion yr wyf wedi'u hamlinellu uchod.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Eitem 3.2

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

3 Tachwedd 2025

Annwyl Elin,

Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at adolygiad Fforwm y Cadeiryddion o effeithiolrwydd pwyllgorau yn y Chweched Senedd. Mae'r ymateb hwn yn tynnu ar brofiad aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith dros gyfnod y tymor hwn o'r Senedd ac yn adlewyrchu ein barn ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu.

Diwylliant Pwyllgorau

Credwn fod angen dull adeiladol ac amhleidiol er mwyn i bwyllgor lwyddo i gyflawni ei amcanion. Rydym hefyd o'r farn bod lle i adlewyrchu natur gydweithredol gwaith pwyllgor yn well wrth ei hyrwyddo, y tu hwnt i rôl y Cadeirydd. Er enghraifft, credwn y byddai mwy o welededd i holl aelodau'r pwyllgor wrth lansio adroddiadau ac o ran gweithgarwch yn y cyfryngau yn atgyfnerthu natur drawsbleidiol y gwaith.

Credwn y byddai diwylliant pwyllgorau'r Senedd yn elwa o fwy o amrywiaeth yn eu cadeiryddion. Er enghraifft, dros nifer o flynyddoedd, bu bylchau yng nghynrychiolaeth cadeiryddion benywaidd ar bwyllgorau sy'n ymdrin â meysydd polisi allweddol fel cyllid, yr economi a materion gwledig. Credwn y byddai cyflawni gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y rolau hyn yn cryfhau'r broses graffu.

Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r amserlen gyffredinol fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer cyfrifoldebau gofalu ac anghenion hygyrchedd, gan sicrhau y gall pob Aelod gymryd rhan lawn.


Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Trefniadaeth Busnes y Pwyllgorau

Teimlai rhai Aelodau fod pwyllgorau sydd â chylchoedd gwaith trawsbynciol eang, sy'n cwmpasu portffolios sawl Gweinidog, fel y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, yn gallu wynebu heriau difrifol o ran llwyth gwaith polisi a deddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid ystyried sicrhau llinellau clir o atebolrwydd gweinidogol o fewn cylchoedd gwaith y pwyllgorau yn y Senedd nesaf, gan gadw digon o hyblygrwydd i alluogi craffu trawsbynciol. Gellid cyflawni hyn drwy geisio lleihau nifer y portffolios Gweinidogol yng nghylch gwaith pwyllgor. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor o blaid ailgyfansoddi cylchoedd gwaith pwyllgorau i adlewyrchu portffolios gweinidogol, pe baent yn newid.

Mae llwyth gwaith deddfwriaethol trwm y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, yn enwedig yn ail hanner y tymor hwn o'r Senedd, wedi lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer gwaith polisi yn sylweddol. Rydym yn cydnabod, er bod manteision clir i'r model polisi-a-deddfwriaeth deuol, gan gynnwys caniatáu i Aelodau feithrin arbenigedd ar draws y ddwy swyddogaeth, y gall fod yn brin o hyblygrwydd. Gwnaethom drafod modelau amgen, gan gynnwys defnyddio pwyllgorau deddfwriaeth ad hoc. Cafodd rhai aelodau o'r Pwyllgor brofiad negyddol o'r dull hwn yn ystod tymhorau blaenorol y Senedd, gan gynnwys lefelau anghyson o ymgysylltu yn dibynnu ar bwnc y ddeddfwriaeth. Credwn y dylid ystyried modelau amgen yn ofalus, gan y gallant wanhau parhad a datblygiad arbenigedd o fewn pwyllgorau.

Mae'r Pwyllgor yn credu bod maint llai y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn ystod tymor y Chweched Senedd wedi galluogi'r Aelodau i gyfrannu'n fwy llawn at y trafodion. Ar ben hynny, mae ein profiad yn ystod y tymor hwn yn awgrymu y dylai Aelodau eistedd ar lai o bwyllgorau er mwyn caniatáu datblygu arbenigedd pwnc. Credwn na ddylai cynnydd yn nifer yr Aelodau yn y Senedd nesaf arwain yn awtomatig at greu pwyllgorau ychwanegol neu fwy o faint, gan y gallai hyn gael yr effaith o wanhau arbenigedd a'i gwneud hi'n anoddach i aelodau gyfrannu at y trafodion.

Rydym yn cefnogi'n fras y defnydd parhaus o drefniadau gweithio hybrid ac yn cydnabod eu bod yn gwella hygyrchedd. Fodd bynnag, ceir cytundeb y dylai presenoldeb wyneb yn wyneb barhau i fod yn ddiofyn ar gyfer trafodion Cyfnod 2. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai canllawiau cliriach ar gyfranogiad mewn achosion hybrid yn helpu i sefydlu disgwyliadau cyson ar gyfer Aelodau, Gweinidogion a thystion.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd y Pwyllgor Deisebau ac yn credu y gallai cydgysylltu cryfach rhyngddo a phwyllgorau polisi helpu i lywio blaenraglenni gwaith a chefnogi nodi materion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar.

## Rhyngweithio â Phwyllgorau

Mae'r Pwyllgor yn credu bod gwaith craffu effeithiol yn dibynnu ar sylfaen dystiolaeth eang ac amrywiol. Mae'r Aelodau'n cefnogi ymdrechion parhaus i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau,

dinasyddion a chynrychiolwyr cymunedol mewn ymchwiliadau pwyllgor. Er ein bod yn credu bod ymgysylltu wedi gwella yn ystod y Chweched Senedd, mae lle o hyd i ehangu cyfranogiad ymhellach drwy ymweliadau allgymorth a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, os oes gan bwyllgorau ddigon o gapasiti ac adnoddau.

Credwn fod gweithgareddau ymgysylltu allanol, gan gynnwys ymweliadau a digwyddiadau, ymhlith elfennau mwyaf gwerthfawr gwaith y pwyllgor. Mae gweithgareddau o'r fath yn darparu cyd-destun pwysig na ellir ei gael mewn ystafell bwyllgora, a gallant effeithio'n sylweddol ar y ffordd o feddwl ynghylch deddfwriaeth a pholisi, er enghraifft, ein hymweliad â Transport for Greater Manchester a oedd yn amhrisiadwy wrth ddeall materion ymarferol y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

Mae Aelodau'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir gan dimau ymchwil. Mae'r Pwyllgor yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod allbynnau ymchwil yn gryno ac wedi'u ffocysu, o ystyried y gofynion ar aelodau, a all fod yn aelodau o sawl pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn credu y gall llwyth gwaith deddfwriaethol trwm, sydd wedi'i bwysoli tuag at ail hanner tymor presennol y Senedd, a'r rhybudd cyfyngedig o fusnes sydd ar ddod (gan gynnwys ar gyfer LCMs), gyfyngu ar graffu a lleihau cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ystyrlon. Rydym wedi mynd i'r afael â materion o'r fath sawl gwaith yn ystod tymor y Senedd hwn mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Busnes. Credwn y dylai'r Pwyllgor Busnes gynnal trafodaeth â Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y Senedd nesaf ynghylch sut y gellid gwella'r amserlen er mwyn sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar graffu.

## Casgliad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwaith Fforwm y Cadeiryddion yn y maes hwn. Gobeithiwn y bydd yn galluogi'r Senedd nesaf i ddysgu o'r gwersi a ddysgom yn ystod y Chweched Senedd. Byddai'r Aelodau'n fodlon trafod unrhyw faterion yn yr ymateb hwn neu roi eglurhad ychwanegol pe bai Fforwm y Cadeiryddion yn gweld hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Llyr Gruffydd AS,**
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Written Response to Senedd Stage 1 Report on the Environment (Wales) Bill**

*Gareth Thomas, Louise Steel, Luci Attala - University of Wales Trinity St David, UNESCO Most-Bridges*

**Introduction**

**The current environmental consultation approach is ineffective in Wales. This is because it privileges institutional voices while excluding those with lived and embodied environmental knowledge.** This is best evidenced by the oral witnesses called to the Stage 1 inquiry, all of whom represented statutory bodies or large organisations rather than the communities most affected by the legislation.

What Wales needs is not more regulation but more meaningful integration of community knowledge and co-creative governance within existing frameworks. Increased legislation gives more power to governing bodies such as Natural Resources Wales and Council Conservation Teams, which can inadvertently centralise decision-making within environmental science which marginalises local expertise. **Effective environmental care depends on combining scientific and community/embodied knowledge through collaborative, place-based practice rather than enforcing additional statutory controls.** As Tengö et al. (2014) argue, sustainability emerges when diverse knowledge systems operate as parallel and equal sources of evidence rather than within hierarchical governance models, a position reinforced by the IPBES (2019) Global Assessment, which calls for participatory, co-produced governance instead of top-down enforcement.

This report draws on anthropological fieldwork conducted through *CoastalTales*, an international research project involving UNESCO, the University of Wales Trinity Saint David, Trinity College Dublin, and Alaska and Arizona State Universities. The written evidence submitted by Gareth Thomas, Professor Louise Steel, and Professor Luci Attala (University of Wales Trinity Saint David and UNESCO-MOST BRIDGES) to the Stage 1 Report of the Senedd Environment and Climate Change Committee on the *Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Bill* (2024) is rooted in three years of ethnographic research with a wide range of coastal partners. Grounded in the field experience of *CoastalTales*, our submission argued that environmental governance in Wales must recognise the legitimacy of multiple knowledge systems, especially those informed by community heritage, lived experience, and ecological practice. **While the creation of new legislation may seem an obvious response, it risks reinforcing technocratic control rather than engaging with the relational and cultural dimensions that underpin genuine environmental care.**

**Recognition of Diverse Knowledge Sources- areas of agreement**

The Committee recognises our argument that environmental governance must draw on diverse forms of evidence. It explicitly cites our call to engage with “non-institutional knowledge holders” and to acknowledge “community and heritage-based evidence”

(Stage 1 Report, pp. 107–113). Both our submission and the Committee's report emphasise that environmental decision-making should be participatory and transparent. The Committee's recommendation for wide consultation before new regulations reflects our call for inclusive engagement, although our position extends beyond procedural participation toward genuine epistemic equality. The report also supports our view that institutional structures and limited capacity constrain the Bill's implementation, agreeing that community involvement and local legitimacy are essential for achieving biodiversity targets. In addition, the Committee aligns with our emphasis on the need for environmental governance that responds to Wales's distinctive social and ecological contexts, recognising that sustainability cannot be separated from its cultural and historical foundations.

**Areas of Disagreement**

The most significant divergence concerns the depth of inclusion. Our submission, informed by many years of ethnographic work, calls for the structural integration of community, heritage, and embodied knowledge within the evidentiary and policy frameworks of the Bill. The Committee, by contrast, limits its recommendations to improved consultation procedures. While both perspectives acknowledge the value of local knowledge, the Committee's approach continues to assume that scientific and bureaucratic systems hold ultimate authority.

This approach is a form of **technocratic environmentalism,** which we identify as a key limitation of contemporary governance (Thomas 2025). It **privileges quantifiable metrics, compliance structures, and abstract targets over lived ecological relationships, treating sustainability as a technical problem to be managed** rather than as an ethical and communal practice of care. The Committee's report does not challenge this framework; instead, it focuses on streamlining regulation and coordination, thereby reproducing what Thomas (2025) calls the *"managerial logic of environmental care,"* where control and compliance displace relational forms of stewardship.

We argue that **this model is fundamentally un-Welsh. In Wales, there exists a long-standing heritage of craft, land, and sea-based practices grounded in embodied and sustainable knowledge-traditions that, in some cases, reach back a thousand years or more. These forms of expertise, carried through generations, embody a moral economy of care that has sustained local ecologies. Yet they are being increasingly ignored** (or discontinued) in favour of technocratic systems that burden small-scale regenerative initiatives with bureaucratic complexity while granting larger, capitalised actors greater flexibility due to their institutional familiarity and access to legislative mechanisms. The Bill's implementation risks perpetuating this imbalance if it fails to integrate plural knowledge systems and moral economies of care into its operational logic.

Our submission explicitly advances the principle of epistemic justice, understood as the fair recognition and inclusion of community knowledge within governance

structures. **Although the Committee reproduces our language, it does not propose mechanisms to embed this justice structurally. The difference lies in depth: while the report symbolically acknowledges community knowledge, it leaves it outside the formal evidentiary infrastructure of environmental decision-making.**

We also maintain that heritage is not peripheral but constitutive of environmental understanding. The Committee treats heritage contextually, acknowledging its social relevance but not its epistemic significance. In practice, this leaves **the Bill environmentally managerial rather than culturally regenerative and insufficiently respectful of Wales's ancient, place-based knowledge traditions.**

**Co-production and Shared Authority**

UNESCO's *CoastalTales* project has been working closely with Natural Resources Wales (NRW) through the Teifi Demonstrator Project, to submit a 10M bid to the National Lottery Heritage Fund. This collaboration demonstrates the value of co-production in developing inclusive, context-sensitive models of environmental governance. By bringing together scientists, policymakers, and community knowledge holders, the project illustrates how shared authority and knowledge integration can generate more sustainable, legitimate, and locally resonant approaches to biodiversity care. This is not easy work, but that does not mean it is not worth doing. Environmental organisations are losing the trust and support of ordinary people because communities are witnessing first-hand the consequences of a top-down, legislation-heavy approach. This system makes it far easier to regulate or restrict small-scale, local knowledge producers than to challenge the larger industrial or commercial forces that cause the greatest environmental harm. In this way, we loose our traditional environmental knowledge holders. It is time to confront these challenges directly and commit to doing the hard things that rebuild trust, empower local stewardship, and ground environmental care in the lived realities of Welsh traditional knowledge.

**References**

Tengö, M., Brondizio, E. S., Elmqvist, T., Malmer, P., & Spierenburg, M. (2014). "Connecting Diverse Knowledge Systems for Enhanced Ecosystem Governance: The Multiple Evidence Base Approach." *Ambio*, 43(5), 579–591.

IPBES. (2019). *Global Assessment Report on Biodiversity and Ecosystem Services*. Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services, Bonn.

Thomas, G. (2025). *For the Love of the Sea: Technocratic Environmentalism and the Struggle to Sustain Community-led Environmentalism*. *Sustainability* 2026 (forthcoming).

**Gareth Thomas, Louise Steel, Luci Attala - University of Wales Trinity St David, UNESCO Most-Bridges**

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: HID-PO-574-25

Llyr Gruffyd AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Tachwedd 2025

Annwyl Llyr,

**Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith a gyhoeddwyd ar 24 Hydref ynglŷn â Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) fel rhan o waith craffu Cyfnod 1.

Rwy'n ddiolchgar am yr argymhellion a godwyd yn yr adroddiad a byddaf yn amlinellu ymateb y Llywodraeth i'r rhain yn ystod y ddadl ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1.

Er mwyn rhoi ymateb cyflawn i'r set ddefnyddiol o argymhellion yn yr adroddiad, bydd angen ychydig o amser ychwanegol arnaf i ymateb.

